Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Galw a Chyflenwi: Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon

Rhagfyr 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCCGG@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilio**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Galw a Chyflenwi: Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon

Rhagfyr 2024

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd ..... 5**

**1. Cefndir ..... 7**

Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ..... 7

Y Pwyllgor Deisebau ..... 8

Llythyr yr Archwilydd Cyffredinol ..... 9

Sicrhau ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion ..... 9

Contract fframwaith cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth ..... 10

**2. Y darlun presennol o ran absenoldeb athrawon ac argaeledd athrawon cyflenwi ..... 12**

A oes gennym y data cywir? ..... 12

Absenoldeb nad yw'n gysylltiedig â salwch ..... 12

Cyfraddau absenoldebau oherwydd salwch ..... 15

Ein barn ni ..... 16

Argaeledd athrawon cyflenwi ..... 16

Cymhellion recriwtio a chadw ..... 19

Ein barn ni ..... 22

**3. Costau a ffioedd fframwaith cyflenwi asiantaeth ..... 23**

Ein barn ni ..... 25

A yw rolau staff cyflenwi yn briodol? ..... 26

Ein barn ni ..... 28

Ffioedd asiantaeth ..... 28

Ein barn ni ..... 29

**4. Pwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru ..... 31**

Ein barn ni ..... 33

**5. Ansawdd y cyflenwad a dysgu proffesiynol ..... 34**

Ein barn ni ..... 35

Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol ..... 36

Ein barn ni ..... 37

**6. Tâl ac amodau athrawon cyflenwi ..... 38**

Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ..... 38

Dyfarniad cyflog athrawon 2022/23 ..... 41

Ein barn ni ..... 41

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ..... 43**

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..... 44**

# Rhagair y Cadeirydd

Dywedir y gall athro da newid popeth. Ond pan fydd yr athro hwnnw'n anochel yn absennol, mae ansawdd y trefniadau cyflenwi yn bwysig iawn. Rhaid inni ddarparu'r ddarpariaeth orau bosibl i gyflenwi absenoldebau addysgu yn yr ystafell ddosbarth fel na fydd addysg plant yn dioddef yn ormodol.

Mae'n hanfodol felly bod gennym gyflenwad digonol o athrawon cyflenwi sy'n cael eu talu'n ddigonol, yn gymwys ac uchel eu cymhelliant, ar draws pob oedran a phwnc, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ddeng mlynedd yn ôl, cyhoeddodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd ei adroddiad o'r enw 'Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon' yn dilyn gwaith gan Estyn a'r Archwilydd Cyffredinol.

Ers hynny, mae'r Archwilydd Cyffredinol a Phwyllgor Deisebau'r Senedd wedi gwneud gwaith pellach ar y mater.

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru yn ei Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu model cyflogaeth cynaliadwy ar gyfer athrawon cyflenwi gyda gwaith teg yn ganolog iddo.

Yn 2020, canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol:

'Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gefnogi staff cyflenwi, mynd i'r afael ag achosion sylfaenol absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth, gwella trefn rheoli absenoldeb a mynd i'r afael â rhai pryderon allweddol ynghylch contractau asiantaeth. Fodd bynnag, mae bylchau mewn data yn golygu ei bod yn dal yn anodd dweud a yw rhai o'r camau hyn yn cael yr effeithiau a fwriedir.'

Bedair blynedd yn ddiweddarach, er bod y llywodraeth wedi gweithredu mewn rhai meysydd, mae'r 'bylchau mewn data' hynny yn parhau.

Er bod camau pwysig wedi'u cymryd, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod cynnydd yn rhy araf a lle mae camau'n cael eu cymryd, mae'r diffyg monitro yn golygu na all y llywodraeth fod yn siŵr a yw ei dull yn cael yr effaith a ddymunir.

Mae'n bwysig nodi yr hoffai'r pwyllgor weld y 'pwll cyflenwi cenedlaethol' a drafodwyd ers tro yn cael ei wireddu'n genedlaethol a bod pob athro cyflenwi yn gallu manteisio ar gyflog uwch, pensiwn a hyfforddiant eu cydweithwyr.

Bydd y garfan o blant a oedd yn cychwyn ar eu taith ysgol yn ôl yn 2014 bellach yn sefyll eu harholiadau TGAU. Ni allant hwy, na'r plant sy'n eu dilyn, fforddio'r gyfradd bresennol o gynnydd.

**Mark Isherwood AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

# 1. Cefndir

## Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol

**1.** Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad yn trafod absenoldeb athrawon yn 2020[1] a oedd yn dilyn gwaith ei ragflaenydd yn 2013[2]. Roedd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol hefyd wedi cyflwyno adroddiad ar y pwnc hwn yn 2014[3]. Argymhellodd, mewn perthynas â sicrhau ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion, y dylai Llywodraeth Cymru:

- atgyfnerthu yn ei phroses o ddatblygu a gweithredu polisi bod rheoli absenoldeb staff mewn modd effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr.
- nodi mesurau llwyddiant tymor hwy clir er mwyn barnu'r cynnydd o ran gwella ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi.
- gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, consortia addysg rhanbarthol ac asiantaethau i hyrwyddo'r hyfforddiant a'r adnoddau sydd ar gael i athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu, yn arbennig yn rhan o'i gwaith o baratoi'r proffesiwn addysgu ar gyfer cyflwyno gwelliannau i'r cwricwlwm o fis Medi 2022.
- egluro a all ysgolion drefnu digon o staff cyflenwi i ryddhau staff i baratoi ar gyfer cyflwyniad y cwricwlwm newydd o fis Medi 2022, yn ogystal ag ymateb i alwadau sy'n deillio o bandemig y coronafeirws. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a phynciau lle mae prinder athrawon cyflenwi eisoes.

**2.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru bwyntiau un, tri a phedwar o'r argymhellion hyn ond ni dderbyniodd yr ail argymhelliad yn llawn.

**3.** Mewn perthynas â'r contract fframwaith cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod fframwaith caffael cenedlaethol 2019-2022 ar gyfer staff asiantaeth o fudd i ddysgwyr ac ysgolion yn

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Gwaith dilynol, Tachwedd 2020
[2] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb, Medi 2013
[3] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cyflenwi Ar Gyfer Absenoldeb Athrawon, Mai 2014

ogystal ag athrawon cyflenwi ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

> rhoi trefniadau monitro ar waith ar gyfer gweithredu'r contract er mwyn sicrhau bod athrawon cyflenwi, goruchwylwyr cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu yn gweithio'n unol â disgrifiad eu swyddogaethau;
>
> annog ysgolion i ddefnyddio ei chontract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth er mwyn elwa ar ei safonau ansawdd a'i drefniadau diogelu; ac yn
>
> monitro'r gyfradd sy'n manteisio ar ei chontract cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth er mwyn gweld a yw ysgolion yn newid i ddefnyddio asiantaethau y tu hwnt i ofynion y contract.

**4.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru bwyntiau dau a thri o'r argymhelliad hwn. Nododd nad oedd yn derbyn pwynt un (er ei bod wedi cymryd camau penodol ers hynny).[4]

## Y Pwyllgor Deisebau

**5.** Ym mis Mawrth 2021, yn ystod y Bumed Senedd, cyhoeddodd y Pwyllgor Deisebau adroddiad yn seiliedig ar ymchwiliad i ddeiseb o'r enw "Rhoi Chwarae Teg i Athrawon Cyflenwi"[5]. Gwnaeth bedwar argymhelliad, gan adleisio rhai o argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, sef:

> **Argymhelliad 1.** Y dylai Llywodraeth nesaf Cymru adolygu effaith y Cytundeb Fframwaith Gwasanaethau Caffael Cenedlaethol ar gyfer darparu gweithwyr dros dro ac athrawon cyflenwi, a ddyfarnwyd ym mis Medi 2019, er mwyn deall yn llawn ei effaith ar gyflog ac amodau'r gweithlu addysgu cyflenwi.
>
> **Argymhelliad 2.** Fel yr argymhellwyd gan Archwilio Cymru, dylai Llywodraeth Cymru fonitro faint sy'n defnyddio'r Cytundeb Fframwaith i ddeall a yw ysgolion yn defnyddio asiantaethau y tu allan i'r contract hwnnw, a'r niferoedd.
>
> **Argymhelliad 3.** Ochr yn ochr â hyn, dylai Llywodraeth nesaf Cymru ystyried ymhellach drefniadau amgen ar gyfer cefnogi ysgolion i ddod o hyd i athrawon cyflenwi a'u cyflogi, gan gynnwys cyflogaeth uniongyrchol a chyflwyno

[4] Archwilydd Cyffredinol Llythyr at y Pwyllgor Hydref 2023, paragraff 24.
[5] Y Pwyllgor Deisebau: Rhoi Chwarae Teg i Athrawon Cyflenwi, Mawrth 2021.

trefniadau cyflenwi canolog neu ranbarthol. Rydym o'r farn y byddai gan ddatrysiad sector cyhoeddus fanteision sylweddol dros y model cyfredol.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ystyried cyflog ac amodau athrawon cyflenwi a dros dro fel rhan o'i gyfrifoldebau.

## Llythyr yr Archwilydd Cyffredinol

**6.** Ym mis Hydref 2023, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at y Pwyllgor yn nodi canfyddiadau o'i archwiliad i'r camau a gymerwyd mewn ymateb i adroddiad 2020, a rhai datblygiadau ehangach. Roedd y llythyr yn egluro na wnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol gynnal unrhyw waith ymchwilio yn dilyn adroddiad 2020.[6]

**7.** Daeth y llythyr i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd ystod o gamau gweithredu mewn ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol yn 2020. Fodd bynnag, gan adlewyrchu materion tebyg i'r rhai a godwyd yn adroddiad 2020, roedd bylchau mewn data ar, er enghraifft, y nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol, ynghyd â diffyg gwerthuso hyd yma, ac absenoldeb darlun clir o'r hyn sy'n gyfystyr ag ansawdd da a chyflenwad digonol ar draws y system addysg, yn golygu nad oedd yn glir a oedd pob cam gweithredu wedi bod yn effeithiol

**8.** Nid oedd y llythyr yn gwneud unrhyw argymhellion newydd, ond roedd yn nodi rhai disgwyliadau cyffredinol i Lywodraeth Cymru barhau i fonitro materion amrywiol. Yn benodol, gwnaeth y llythyr y prif bwyntiau hyn:

## Sicrhau ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi ar gyfer ysgolion

- Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'w chanllawiau ar reoli presenoldeb y gweithlu ysgolion ac wedi gwella'r fethodoleg ar gyfer casglu data ar absenoldeb oherwydd salwch ymhlith athrawon ond nid oes data o hyd ar gyfraddau absenoldeb am resymau eraill.
- Yn y pen draw, ysgolion sy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniant cyflenwi ar gael yn yr ystafell ddosbarth ac am ansawdd yr addysgu, ond nid yw Llywodraeth

[6] Archwilydd Cyffredinol Llythyr at y Pwyllgor Hydref 2023

Cymru wedi nodi sut y bydd yn gwybod a yw ei chamau gweithredu ategol ei hun yn effeithiol.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i ddarparu mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon cyflenwi a staff cyflenwi ond nid oes data ar y niferoedd sy'n manteisio arnynt nac effaith hynny.
- Mae adroddiadau o hyd am brinder darpariaeth gyflenwi addas mewn rhai ardaloedd, pynciau ac mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, tra bo nifer yr athrawon cyflenwi cofrestredig ar y cyfan wedi gostwng.

## Contract fframwaith cenedlaethol ar gyfer staff asiantaeth

- Er nad yw wedi sefydlu unrhyw drefn fonitro systematig, ers mis Hydref 2020 nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am unrhyw achosion lle gofynnwyd i athrawon cyflenwi neu staff cyflenwi eraill weithio y tu allan i'w rôl a hysbysebwyd ac mae wedi atgyfnerthu ei disgwyliadau.
- Mae'r defnydd o'r contract fframwaith cenedlaethol wedi cynyddu ychydig o gyfradd a oedd eisoes yn uchel, felly mae mwy o drefniadau cyflenwi'n cael budd o'i ofynion diogelu a chyflogaeth
- Gwariodd ysgolion ac awdurdodau lleol £101 miliwn ar staff asiantaeth mewn addysg trwy'r contract fframwaith yn 2022-23. Roedd hyn ychydig dros 10% yn fwy mewn termau real nag yn 2021-22 a thros dair gwaith yn fwy nag yn 2018-19 o dan y contract blaenorol.
- Mae cyflog ar gyfer athrawon cyflenwi sy'n gweithio trwy asiantaeth wedi cynyddu, gyda'r gyfradd ddyddiol isaf ar gyfer athrawon cyflenwi a gyflogir trwy'r contract yn codi i £152 ym mis Mai 2023.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu contract fframwaith cenedlaethol newydd, gan adeiladu ar drefniadau 2019/20 – 2022/23 ond gyda gwelliannau pellach yn yr arlwy dysgu proffesiynol a threfniadau diogelu cyflogaeth.
- Mae cynrychiolwyr athrawon cyflenwi'n ofalus obeithiol ynghylch opsiwn newydd Llywodraeth Cymru lle bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn cyflogi athrawon cyflenwi'n uniongyrchol trwy Bwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru sy'n cynnig mynediad at y gronfa bensiwn athrawon, ond nid yw'n

hysbys faint sy'n debygol o fanteisio ar yr opsiwn, a bydd y costau'n uwch nag ar hyn o bryd.

**9.** Ar ôl ystyried y llythyr, penderfynodd y Pwyllgor glywed tystiolaeth bellach gan Lywodraeth Cymru. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru ar 21 Chwefror 2024. Yn dilyn hynny, ysgrifennodd y Pwyllgor at Estyn i ofyn am eu barn ar y sefyllfa bresennol yng Nghymru, gan gyfeirio at eu swyddogaethau a'u gwaith arolygu eu hunain.[7] Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr ymateb hwn gan Estyn[8] yn ogystal â thystiolaeth ysgrifenedig bellach gan Lywodraeth Cymru[9].

[7] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Llythyr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at Estyn
22 Chwefror 2024
[8] Estyn, Llythyr gan Estyn, Mawrth 2024.
[9] Llywodraeth Cymru, Llythyr gan Lywodraeth Cymru Mawrth 2024.

# 2. Y darlun presennol o ran absenoldeb athrawon ac argaeledd athrawon cyflenwi

## A oes gennym y data cywir?

**10.** Daeth adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2020 i'r casgliad, er gwaethaf y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag absenoldeb athrawon:

> "... mae bylchau mewn data yn golygu ei bod yn dal yn anodd dweud a yw rhai o'r camau hyn yn cael yr effeithiau a fwriedir.'[10]

**11.** Ategwyd y neges hon yn llythyr yr Archwilydd Cyffredinol at y Pwyllgor:

> *"Mae ein hadroddiadau blaenorol wedi amlygu'r diffyg gwybodaeth am gyfraddau absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth am resymau heblaw salwch. Mae hyn yn parhau i fod yn wir."*[11]

**12.** Cadarnhaodd Estyn i'r Pwyllgor nad yw'n casglu'r wybodaeth hon:

> *"During inspection and monitoring activity we discuss teacher absence and its impact on pupils, but we don't collect information about the use of supply teachers."*[12]

## Absenoldeb nad yw'n gysylltiedig â salwch

**13.** Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, nododd Sioned Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol gwasanaethau cyhoeddus a'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru

[10] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Gwaith dilynol, Tachwedd 2020
[11] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Gwaith dilynol 2023, Hydref 2023
[12] Estyn, Llythyr gan Estyn, Mawrth 2024.

> *"The 2021 national education workforce survey…identified workload concerns as being the main issue, other than pure sickness, for teacher absence."*[13]

**14.** Disgrifiodd Sioned Evans sut mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater o absenoldeb oherwydd problemau llwyth gwaith drwy greu grŵp cydgysylltu llwyth gwaith strategol, a dywedodd:

> *"it will oversee all issues relating to reducing workload and bureaucracy in relation to schools….There was also a ministerial statement on 24 November*[14] *around reducing workload and bureaucracy for school staff, and that referred to workload impact assessments."*[15]

**15.** Disgrifiodd Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru, y camau sy'n cael eu cymryd mewn nifer o feysydd i leihau llwyth gwaith a dywedodd ynghylch y llywodraeth:

> *"we're looking at that, working very closely with local authorities, with Estyn, with consortia, to try and streamline some of our funding streams to try and reduce some of the reporting requirements that are on schools and local authorities. I think there is a range of things that we're looking at. There's no one silver bullet."*[16]

**16.** Fodd bynnag, roedd tystiolaeth lafar Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi nad oes unrhyw fonitro ar lefelau absenoldeb am resymau heblaw salwch ac felly nid oes unrhyw arwydd o lefel dderbyniol o absenoldeb o'r fath, nac o'r tueddiadau yn y maes hwn.[17]

---

[13] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 53
[14] Llywodraeth Cymru Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad - lleihau llwyth gwaith a biwrocratiaeth i staff ysgolion Tachwedd 2024
[15] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 53
[16] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 61
[17] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 67

**17.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei lythyr:

> *"Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'w chanllawiau ar reoli presenoldeb y gweithlu ysgolion ac wedi gwella'r fethodoleg ar gyfer casglu data ar absenoldeb oherwydd salwch ymhlith athrawon ond nid oes data o hyd ar gyfraddau absenoldeb am resymau eraill."*[18]

[18] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023.

## Cyfraddau absenoldebau oherwydd salwch

**18.** Roedd llythyr yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi:

> *"O 2020/21, fe wnaeth Llywodraeth Cymru wella'r fethodoleg ar gyfer casglu data ar absenoldeb oherwydd salwch, gan ehangu cwmpas y data yr oedd yn ei gasglu. Mae'r drefn adrodd bellach ar sail blwyddyn academaidd hefyd yn hytrach na blwyddyn galendr. Mae'r newidiadau hyn yn golygu na allwn gymharu data ar absenoldeb athrawon oherwydd salwch yn uniongyrchol o 2020/21 ymlaen â blynyddoedd cynharach. Mae data ar gyfer 2021/22 yn dangos bod absenoldeb oherwydd salwch yn uwch yn 2021/22 nag oedd yn 2020/21 ar sawl dangosydd."*[19]

**19.** Daeth ffigurau mwy diweddar ar gyfraddau absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 ar gael ar ôl sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor. Rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli unrhyw duedd o'r ffigurau hyn oherwydd effaith pandemig COVID-19. Mae'r ffigurau'n dangos, mewn tair o'r pedair set ddata a amlygwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, fod absenoldeb oherwydd salwch wedi gwella ychydig ers 2021/22 ond yn parhau i fod yn uwch na 2020/21[20]:

- Yn 2022/23, cafodd 35,880 o gyfnodau o absenoldeb oherwydd salwch naill ai eu hagor neu eu cau. Mae hyn yn welliant bach ar 2021/22 (38,900) ond yn dal i fod yn fwy na dwywaith cymaint ag yn 2020/21 (17,475).

- Yn 2022/23, cymerodd 60.9% o athrawon o leiaf un cyfnod o absenoldeb salwch. Mae hyn yn dangos gwelliant bach o ffigur 2021/22 o 65.2% ond yn parhau i fod yn uwch na 2020/21 (40%).

- Yn 2022/23, collodd 7.0% o athrawon fwy nag 20 diwrnod gwaith oherwydd salwch. Mae hyn yn welliant ymylol o 2021/22 (8.3%) ond yn uwch na 5.5% yn 2020/21.

**20.** Fodd bynnag, yn 2022/23 collwyd cyfartaledd o 11.3 diwrnod gwaith fesul athro a gymerodd absenoldeb, i lawr o 12.8 yn 2021/22 ac 11.9 yn 2020/21.

---

[19] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 6
[20] StatsCymru Absenoldeb athrawon trwy salwch

## Ein barn ni

**21.** Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod absenoldeb salwch yn parhau i fod yn bryder. Er bod y newidiadau yn y ffordd y cesglir data ac effaith y pandemig yn golygu y dylid dehongli'r data hwn yn ofalus, mae angen monitro'r darlun esblygol yn ofalus.

**22.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y diffyg data parhaus yn y maes hwn yn golygu bod effaith cyflwyno'r cwricwlwm, neu resymau eraill dros absenoldeb ac eithrio salwch, yn anhysbys o hyd ac yn atal gallu Llywodraeth Cymru i gynllunio'n effeithiol, yn gyffredinol ac yn benodol lle mae prinder o ran pwnc a phrinder yn ddaearyddol.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru fel mater o flaenoriaeth fynd i'r afael â'r diffyg monitro ac adrodd ar raddau absenoldeb athrawon o'r ystafell ddosbarth am resymau heblaw salwch.

### Argaeledd athrawon cyflenwi

**23.** Yn ei lythyr, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at yr heriau y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i gyflenwad digonol, gan gynnwys prinder staff cyflenwi addas mewn rhai meysydd, pynciau, a thrwy gyfrwng y Gymraeg:

> *"Fe wnaeth pob un o'r saith cyfarwyddwr addysg…sôn am yr…enghreifftiau a oedd yn effeithio ar ardaloedd gwledig, ysgolion uwchradd, ysgolion cyfrwng Cymraeg, a rhai pynciau. Mae'r bylchau hyn hefyd yn adlewyrchu meysydd lle bu diffygion o ran recriwtio i addysg gychwynnol i athrawon, er enghraifft ar gyfer addysg uwchradd ac addysg cyfrwng Cymraeg."*[21]

**24.** Mae'r Cyfarwyddwr Addysg a'r Gymraeg yn cydnabod y materion penodol hyn:

> *"Dwi yn meddwl, ar hyn o bryd, fod y ffigurau sydd gyda ni yn dangos bod recriwtio a chadw athrawon, ar y cyfan, yn eithaf stable, mewn ffordd. Ond rydyn ni'n sicr yn gweld bod yna anawsterau a sialensiau*

[21] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraffau 16 a 17.

> *o ran recriwtio mewn pynciau penodol, i fod yn deg, ac mewn rhannau o Gymru hefyd. A dwi'n meddwl bod hwnna'n sicr yn wir pan mae'n dod i'r iaith Gymraeg, ond mae yna hefyd bynciau eraill yn y sector uwchradd—mathemateg, er enghraifft—lle mae'n her i ysgolion."*[22]

**25.** Tynnwyd sylw hefyd at y materion penodol sy'n ymwneud ag athrawon cyflenwi cyfrwng Cymraeg yn adroddiad 2020 yr Archwilydd Cyffredinol ar y cwricwlwm newydd i Gymru:

> *"Mae uchelgeisiau Llywodraeth Cymru'n cael eu bygwth gan ddiffyg hirsefydlog o ran athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg ac addysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg."*[23]

**26.** Mewn perthynas â'r manylion hyn, dywedodd Mr Lloyd:

> *"Mae yna her o ran cael pobl sydd yn ddwyieithog i mewn i'r sector ac i mewn i addysgu. Mae gyda ni gynllun gweithlu addysg o ran hynny, o ran y Gymraeg, a gafodd ei gyhoeddi rhyw ddwy flynedd yn ôl. Mae yna amryw o bethau yn hynny dŷn ni'n trio'u gwneud er mwyn mynd i'r afael â hynny".*[24]

**27.** Nododd Mr Lloyd ymhellach bod *'yna rannau daearyddol gwledig, dwi'n meddwl, lle mae yna broblem benodol.'*[25]

**28.** Y ffigurau diweddaraf a oedd ar gael i'r Pwyllgor, ar adeg y sesiwn dystiolaeth, oedd ystadegau blynyddol y gweithlu addysg ar gyfer Cymru 2023.[26].

**29.** Roedd llythyr yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi y bu gostyngiad o 16.6% yn nifer cyffredinol yr athrawon cyflenwi cofrestredig rhwng 2020 a 2023, (o 4,635 yn 2020 i 3,867 yn 2023). Mae'r rhesymau y mae'n eu nodi dros hyn yn cynnwys effaith athrawon cyflenwi yn symud i sectorau eraill yn ystod pandemig COVID-19

[22] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 72
[23] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Y Cwricwlwm Newydd i Gymru, Mai 2022, paragraff 3.6.
[24] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 76
[25] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 74
[26] Cyngor y Gweithlu Addysg, Ystadegau'r Gweithlu Addysg yng Nghymru, 2023

ac athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu yn cael eu recriwtio i rolau newydd a grëwyd gan ysgolion gan ddefnyddio cyllid o raglen 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau' Llywodraeth Cymru i gefnogi disgyblion yr effeithir arnynt fwyaf gan y pandemig.[27]

**30.** Yn fwy diweddar, mae ffigurau 2024 wedi dangos cynnydd o 3867 yn 2023 i 4051.[28] Mae hyn yn cynrychioli cynnydd cymedrol o tua 5 y cant o 2023 ac er bod hynny i'w groesawu, mae'n parhau i fod ymhell islaw'r nifer a gofrestrwyd yn 2020.

**31.** Clywodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg dystiolaeth gan undebau athrawon ym mis Ionawr 2024. Mynegodd yr undebau bryderon ynghylch argaeledd cyffredinol athrawon cyflenwi, a sut y gallai Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) wneud y prinder hwnnw'n waeth drwy gynnydd yn y galw am gyflenwi. Codwyd pryder ganddynt hefyd am effaith y Bil ar argaeledd staff cyflenwi addas ar gyfer grwpiau oedran hŷn adeg arholiadau.[29]

**32.** At hynny, clywodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan undebau athrawon ym mis Mehefin 2022, fel rhan o'i ymchwiliad i absenoldebau disgyblion. Tynnodd yr undebau sylw at yr effaith y gall absenoldebau athrawon ei chael ar absenoldebau disgyblion. Roedd hyn yn erbyn cefndir o absenoldebau athrawon yn gysylltiedig â COVID, ond roeddent hefyd yn ei gysylltu â phwysau llwyth gwaith ychwanegol y Cwricwlwm newydd i Gymru.[30]

**33.** Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol sylwadau hefyd ar effaith cyflwyno'r cwricwlwm ar athrawon cyflenwi yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022, gan nodi:

> *"Yn ogystal â chostau uniongyrchol diwygio'r cwricwlwm, mae ysgolion yn wynebu costau cyfle sylweddol hefyd. Mae'r rhain yn cynrychioli'r amser pan nad yw staff ar gael ar gyfer gwaith arall am eu bod yn cyflawni gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm*

[27] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 19
[28] Cyngor y Gweithlu Addysg, Ystadegau Blynyddol ar gyfer y Gweithlu Addysg yng Nghymru, 2024
[29] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 4, 11 Ionawr 2024
[30] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Absenoldeb disgyblion – sesiwn dystiolaeth 4, 23 Mehefin 2022

> *newydd ac nad yw'n cael ei ariannu â grantiau Llywodraeth Cymru i dalu am athrawon cyflenwi yn eu lle."*[31]

**34.** Nododd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei lythyr ym mis Hydref 2023:

> *"Dywedodd ein hadroddiad yn 2020 y byddai angen trefniadau cyflenwi er mwyn galluogi athrawon i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Nid oedd yn glir i ni a oedd digon o athrawon cyflenwi ar gael."*[32]

**35.** Gan gydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi deddfu ar gyfer diwrnod hyfforddiant mewn swydd ychwanegol o 2019/20, a bod hyn wedi parhau am dair blynedd academaidd arall o 2022/23. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"Mae'r diffyg gwybodaeth am resymau dros ddefnyddio trefniadau cyflenwi yn golygu nad ydym yn gwybod ar gyfer faint o'r diwrnodau disgwyliedig hyn y darparwyd trefniadau cyflenwi."* [33]

## Cymhellion recriwtio a chadw

**36.** Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o gymhellion penodol gyda'r nod o sicrhau lefelau digonol o athrawon yn gyffredinol sy'n effeithio ar recriwtio a chadw athrawon cyflenwi. Mae tri chymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) ar gael:

- Y Cynllun Cymhelliant ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth o £15,000 ar gyfer Bioleg, Cemeg, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth, Mathemateg, Ieithoedd Tramor Modern (ITM), Ffiseg a Chymraeg[34]
- Mae'r cynllun cymhelliant Cymraeg, *Iaith Athrawon Yfory*, yn darparu £5,000 i'r rhai sy'n astudio i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu i addysgu Cymraeg fel pwnc.[35]

---

[31] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Y Cwricwlwm Newydd i Gymru, Mai 2022
[32] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 20
[33] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 20
[34] Llywodraeth Cymru: Cymhelliant Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth: Canllawiau i fyfyrwyr 2024 i 2025.
[35] Llywodraeth Cymru: Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory: canllawiau i fyfyrwyr 2023 i 2024

- Y Cynllun Cymhelliant AGA ar gyfer Rhai o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol o hyd at £5,000.[36]

**37.** Fel y nodwyd yn llythyr yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn darparu cymhellion i hyfforddi mewn meysydd lle ceir prinder ers sawl blwyddyn. Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd gymhellion ychwanegol ar gyfer athrawon cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys taliad cadw o £5,000 ar gyfer athrawon uwchradd sydd wedi cwblhau tair blynedd o addysgu ar ôl ennill statws athro cymwysedig. Bydd athrawon cyflenwi sy'n gallu dangos eu bod wedi cwblhau'r hyn sy'n cyfateb i dair blynedd o addysgu uwchradd ac sy'n parhau i weithio mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn gallu gwneud cais am y fwrsariaeth."*[37]

**38.** Yn 2019, adroddodd Cyngor y Gweithlu Addysg ar y cymhellion Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr.[38] Canfu fod y cymhellion pwnc yn uwch yn Lloegr nag yng Nghymru a bod hyn yn cyfrannu at gynyddu llifoedd trawsffiniol. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion i wella recriwtio pynciau gan gynnwys awgrym - "*efallai y bydd angen mwy o wario yng Nghymru er mwyn cystadlu'n effeithiol â'r cynnydd mewn bwrsariaethau yn Lloegr yn ystod y blynyddoedd diweddar*".

**39.** Ers yr adroddiad hwn, mae'r bwlch rhwng gwerth cymhellion pwnc-benodol wedi tyfu. Er enghraifft, £15,000 yw'r Cymhelliant Cychwynnol i Athrawon yng Nghymru ar gyfer ffiseg[39] o gymharu â bwrsariaethau ac ysgoloriaethau gwerth rhwng £29,000 a £31,000 yn Lloegr[40]. (Er y gellid ategu hyn yng Nghymru pe bai'r unigolyn yn gallu cael mynediad i'r cymhelliant AGA *Iaith Athrawon Yfory* neu'r cymhelliant AGA Lleiafrifoedd Ethnig.)

**40.** Nododd yr Archwilydd Cyffredinol yn 2022:

[36] Llywodraeth Cymru Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol 2024 i 2025: canllawiau i fyfyrwyr:
[37] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 18
[38] Cyngor y Gweithlu Addysg Cymharu cymelliadau hyfforddi athrawon yng Nghymru a Lloegr. Mai 2019
[39] Llywodraeth Cymru: Cymhelliant Addysg Gychwynnol Athrawon ar gyfer Pynciau â Blaenoriaeth: Canllawiau i fyfyrwyr 2024 i 2025
[40] Adran Addysg Llywodraeth y DU: Bwrsariaethau ac ysgoloriaethau ar gyfer hyfforddiant i athrawon ôl-raddedig

> *"Nid yw mentrau diweddar i ddenu pobl â sgiliau Cymraeg i'w gweld fel pe baent wedi arwain at gynnydd sylweddol. Fe gynyddodd niferoedd y bobl sy'n dechrau addysg gychwynnol i athrawon naill ai i addysgu yn Gymraeg neu sy'n rhugl yn y Gymraeg yn 2019/20 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond roeddent yn dal i fod yn llai nag yn 2014/15."*[41]

**41.** Roedd swyddogion yn cydnabod bod materion penodol mewn amrywiaeth o feysydd pwnc. Dywedodd Owain Lloyd:

> *"Dwi yn meddwl, ar hyn o bryd, fod y ffigurau sydd gyda ni yn dangos bod recriwtio a chadw athrawon, ar y cyfan, yn eithaf stable, mewn ffordd. Ond rydyn ni'n sicr yn gweld bod yna anawsterau a sialensiau o ran recriwtio mewn pynciau penodol, i fod yn deg, ac mewn rhannau o Gymru hefyd. A dwi'n meddwl bod hwnna'n sicr yn wir pan mae'n dod i'r iaith Gymraeg, ond mae yna hefyd bynciau eraill yn y sector uwchradd—mathemateg, er enghraifft."*[42]

**42.** Dylid trin y ffigurau diweddaraf, ar gyfer 2021/22, yn ofalus oherwydd effaith y pandemig, fodd bynnag, maent yn dangos bod 76 y cant o fyfyrwyr Cymru sy'n dilyn Addysg Gychwynnol i Athrawon yn dilyn cyrsiau yng Nghymru yn gyffredinol. Mae hyn yn gynnydd i'w groesawu o gymharu â 2019/20, pan oedd y ffigur yn 59 y cant. Fodd bynnag, ar gyfer rhai pynciau blaenoriaeth, mae hyn yn is (50 y cant ar gyfer ffiseg a 60 y cant ar gyfer cemeg).[43]

**43.** Mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg, dywedodd Sioned Evans:

> *"Iaith Athrawon Yfory ... has seen an increase in the number of teachers coming through, and 72 eligible individuals received the Welsh-medium teacher retention bursary in 2023. So, it's having an impact, but it's quite early days, and therefore we won't yet have done*

[41] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Y Cwricwlwm Newydd i Gymru, Mai 2022
[42] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 72
[43] StatsCymru Myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru ar gyrsiau AGA ysgol uwchradd yn y DU yn ôl pwnc a gwlad astudio

> *the assessment that we need to do to have a look at the overall impact of that and the longer term impact."*[44]

**44.** Fodd bynnag, mae ystadegau swyddogol diweddar yn awgrymu bod nifer y myfyrwyr â sgiliau Cymraeg sy'n dechrau Addysg Gychwynnol i Athrawon wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf:

**Tabl 1 Nifer y myfyrwyr sy'n cofnodi eu gallu i siarad Cymraeg a gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n dechrau Addysg Gychwynnol i Athrawon**[45]

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hyfforddi i addysgu drwy'r Gymraeg** | 235 | 210 | 175 | 235 | 335 | 325 |
| **Siaradwr Cymraeg rhugl** | 350 | 305 | 265 | 300 | 385 | 390 |

## Ein barn ni

**45.** Mae'n hanfodol bod cymhellion Llywodraeth Cymru i helpu i recriwtio myfyrwyr i Addysg Gychwynnol i Athrawon yn effeithiol. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y dystiolaeth yn y maes hwn yn gymysg ac mewn rhai achosion yn cyfeirio at ostyngiad cymharol yn lefel y cymhelliant o gymharu â Lloegr.

**46.** Gan fod cynllun *Iaith Athrawon Yfory* bellach yn fwy na phum mlwydd oed, dylai fod disgwyl iddo gael effaith. Mae'r cynllun yn hollbwysig i gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly i'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.[46].

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ac asesu'n gyflym effaith yr holl gymhellion i helpu i recriwtio myfyrwyr i Addysg Gychwynnol i Athrawon, gan gynnwys cynllun *Iaith Athrawon Yfory* i sicrhau eu bod yn ddigonol ac yn gystadleuol, ac adrodd yn flynyddol ar eu heffaith tymor.

[44] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 84
[45] Llywodraeth Cymru, Addysg Gychwynnol i Athrawon Medi 2021 to Awst 2022, Mai 2023
[46] Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Gorffennaf 2017.

# 3. Costau a ffioedd fframwaith cyflenwi asiantaeth

**47.** Ym mis Medi 2023, daeth contract gweithwyr dros dro newydd Llywodraeth Cymru i rym, gan ddisodli contract 2019-2023. Mae'r contract wedi'i rannu'n lotiau ar gyfer gweithwyr dros dro mewn sawl sector gyda 41 o asiantaethau'n ymuno'n llwyddiannus â'r fframwaith asiantaeth ar adeg ei lansio.

**48.** Yn ei lythyr at y Pwyllgor, mae llythyr yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod ysgolion ac awdurdodau lleol wedi gwario £101 miliwn ar staff asiantaeth mewn addysg (gan gynnwys staff nad ydynt yn y dosbarth megis gofalwyr, staff gweinyddol ac arlwyo) drwy'r contract blaenorol yn 2022-23. Roedd hyn 10.7 y cant yn fwy mewn termau real nag yn 2021-22 a thros dair gwaith yn fwy nag yn 2018-19 o dan y contract blaenorol.[47]

**49.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi bod sawl ffactor wedi cyfrannu at y cynnydd mewn gwariant:

- cynnydd yn nifer y dyddiau cyflenwi;
- cynnydd yn y tâl dyddiol i ysgolion ar gyfer athrawon cyflenwi a chynorthwywyr addysgu, gan adlewyrchu cynnydd yn yr isafswm cyflog ar gyfer athrawon cyflenwi;
- cynnydd yng nghyfran cyfanswm gwariant asiantaethau drwy'r fframwaith.

**50.** Nododd yr Archwilydd Cyffredinol o dan y contract newydd:

> *"Bydd asiantaethau'n parhau i dalu ffi o 0.5% am bob diwrnod a brynir trwy'r fframwaith cenedlaethol i Lywodraeth Cymru i dalu am gost rheoli'r fframwaith. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau faint a gafodd o dan y trefniant hwn."*[48]

[47] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 31
[48] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 36

**51.** Gofynnodd y Pwyllgor i swyddogion Llywodraeth Cymru a oeddent yn gyfforddus â'r lefel honno o wariant, ac i ba raddau y gallant adennill eu costau o ran rheoli'r fframwaith asiantaeth drwy'r 0.5 y cant y mae Llywodraeth Cymru yn ei godi o dan y contract. Dywedodd Sioned Evans fod Llywodraeth Cymru, am y flwyddyn lawn ddiwethaf, wedi derbyn incwm o £504,000 drwy godi 0.5 y cant. Eglurwyd bod costau ar gyfer staff gwasanaeth caffael masnachol, sy'n rheoli tua 30 o gontractau cenedlaethol, yn cael eu cefnogi gan yr incwm hwn. Fodd bynnag, nid oeddent yn gallu cadarnhau costau staff penodol i reoli'r contract hwn.[49]

**52.** Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y Pwyllgor gyda rhagor o wybodaeth am y contract hwn, gan nodi:

> *"mae elfen ffi'r asiantaeth wrth drefnu athro cyflenwi yn cyfrif am oddeutu 16% o gyfanswm y taliad."*[50]

**53.** Yn ei adroddiad yn 2020, tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at risg y gallai ysgolion geisio torri costau drwy newid i asiantaethau y tu allan i'r fframwaith nad yw'n ofynnol iddynt dalu isafswm cyfradd i athrawon cyflenwi. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod cyfran y gwariant cyffredinol gydag asiantaethau drwy'r fframwaith wedi cynyddu o 89.6% yn 2019-20 i 92% yn 2021-22. Fel y nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei lythyr diweddar, mae hyn yn awgrymu nad yw'r risg hon wedi dod yn ffaith.[51]

**54.** Serch hynny, roedd tystiolaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i nodi ymhellach faint o wariant nad yw'n ymwneud â'r fframwaith. Dywedodd Sioned Evans:

> *"it is really important, because we're having a lot of noise around that and we probably need to understand why schools are still choosing to go off the framework, so that we can try and plug that gap in a way*

[49] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 101
[50] Llywodraeth Cymru, Llythyr gan Lywodraeth Cymru Mawrth 2024.
[51] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 28

> *that provides more consistency for the schools, for the local authorities and for the teachers involved in this space."*[52]

**55.** Mae contract Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau gael eu hachredu gan un o dri chorff a enwir yn y diwydiant recriwtio yn y DU. Mae hyn yn ychwanegol at reoleiddio gan Arolygiaeth Safonau Asiantaethau Cyflogaeth Llywodraeth y DU, sy'n gorfodi ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith ar gyfer pob asiantaeth recriwtio. Nododd y Pwyllgor fod yr Arolygiaeth Safonau Asiantaethau Cyflogaeth wedi cynnal adolygiad o'r asiantaethau a benodwyd i'r fframwaith asiantaethau newydd.

**56.** Dywedodd Sioned Evans, o gymharu ag adolygiad a gynhaliwyd yn ystod y fframwaith blaenorol:

> *"The number of issues identified fell, but there was an issue with one framework agency and corrective measures are being taken on that front."*[53]

## Ein barn ni

**57.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu darparu data sy'n cymharu'r incwm y mae'n ei gael o 0.5 a godir ar asiantaethau a'i chostau wrth reoli'r fframwaith asiantaeth hwn.

**58.** Sicrhawyd y Pwyllgor o nodi nad yw'n ymddangos bod y risg y byddai ysgolion yn newid i asiantaethau y tu allan i'r fframwaith nad oes angen iddynt dalu isafswm cyfradd i athrawon cyflenwi wedi dod yn ffaith.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae costau rheoli'r contract yn cymharu â'r swm y mae'n ei gael drwy'r ffi o 0.5 y cant y mae'n ei chodi ar asiantaethau.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i fonitro a deall y rhesymau pam nad yw rhai ysgolion yn dewis defnyddio'r fframwaith asiantaethau athrawon cyflenwi.

---

[52] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 108
[53] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 126

**59.** Rydym yn croesawu gofyniad Llywodraeth Cymru bod yn rhaid i asiantaethau gael eu hachredu gan un o dri chorff a enwir yn y diwydiant recriwtio yn y DU. Rydym yn nodi bod hyn yn ychwanegol at reoleiddio gan Arolygiaeth Safonau Asiantaethau Cyflogaeth Llywodraeth y DU ac rydym yn falch bod y drefn arolygu hon ar waith.

**60.** Mae tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod nifer cyffredinol y materion a nodwyd gan y rheoliadau hyn wedi gostwng ond bod problem gydag un asiantaeth a bod 'mesurau unioni' yn cael eu cymryd. Heb wybod beth oedd y mater neu'r mesurau unioni, ni allwn wneud sylw ar eu harwyddocâd. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r ffaith bod yr archwiliadau hyn wedi'u cynnal a bod mesurau unioni wedi'u cymryd.

## A yw rolau staff cyflenwi yn briodol?

**61.** Yn 20202, argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai Llywodraeth Cymru:

> *"rhoi trefniadau monitro ar waith ar gyfer gweithredu'r contract er mwyn sicrhau bod athrawon cyflenwi, goruchwylwyr cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu yn gweithio'n unol â disgrifiad eu swyddogaethau."*[54]

**62.** Ni dderbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, ond nododd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod yn "annog ysgolion, unigolion ac asiantaethau i roi gwybod am achosion lle gofynnwyd i staff cyflenwi weithio y tu allan i'w rôl benodol". Mae'r llythyr yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw adroddiad o'r fath ers mis Hydref 2020.[55]

**63.** Bu'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried risgiau sy'n ymwneud ag ysgolion yn defnyddio mwy o staff heb gymwysterau i gyflenwi, gan nodi bod "athrawon cyflenwi yn rhoi cyfrif am gyfran ychydig yn llai o ddyddiau cyflenwi a archebwyd trwy'r contract yn 2021-22 (37%) o'i gymharu â 2019-20 (40%)" ond daeth i'r casgliad "heb wneud gwaith manylach, ni allwn wybod i ba raddau y

[54] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Gwaith dilynol, Tachwedd 2020, Argymhelliad 2
[55] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 26

mae ysgolion wedi bod yn defnyddio staff heb gymhwyso i leihau costau neu am resymau eraill."[56]

**64.** Mae'r undebau athrawon NASUWT a'r NEU yn cynnal arolygon blynyddol o'u haelodau sy'n athrawon cyflenwi[57]. Roedd arolwg yr NEU ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2022/23 yn cynnwys athrawon cyflenwi a staff cymorth cyflenwi. Canfu fod 20 y cant o'r ymatebwyr yn dweud eu bod wedi derbyn gwaith a gynigiwyd fel 'goruchwyliaeth gyflenwi' ond yn ymarferol, roedd angen addysgu.

**65.** Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, mynegodd Estyn bryderon:

> *"There is considerable variation in the quality of agency staff and their expectations when deployed. As noted previously, in some areas of Wales, quality isn't a significant problem, although headteachers report that only a few agency staff come into school expecting to teach. In other areas, senior leaders feel that supply staff are often of poor quality and unreliable."*[58]

**66.** Yn ei lythyr, nododd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhelliad yn pwysleisio cyfrifoldebau ysgolion a'u cyrff llywodraethu am bennu'r mathau o rolau cyflenwi y mae eu hangen a sicrhau bod aelodau staff yn gweithio yn unol â'r rôl y'u penodwyd iddi."*[59]

**67.** Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru am y risg, yng nghyd-destun pwysau'r gyllideb, o ysgolion yn cyflogi staff heb gymwysterau at ddibenion cyflenwi, yn y byrdymor a'r hirdymor, yn hytrach nag athrawon. Cydnabu Sioned Evans:

> *"It is an issue.....there is quite a lot of noise in the space around individuals being asked to perform duties that they are either not qualified for or are certainly not being paid for, which is a really big*

[56] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 29
[57] NASUWT, Arolwg Blynyddol Athrawon Cyflenwi (Cymru), Mawrth 2023; NEU, Arolwg aelodau cyflenwi ar gyfer 2022/23, Ebrill 2023
[58] Estyn Tystiolaeth ysgrifenedig, 28 Mawrth 2024
[59] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 25

> *issue. We've not had any formal notification of anything along those lines as far as I'm aware."*[60]

## Ein barn ni

**68.** Mae tystiolaeth o arolygon undebau athrawon, Estyn ac i ryw raddau gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod problem o hyd gydag ysgolion yn dal i gyflogi staff heb gymwysterau i ddarparu athrawon cyflenwi. O ystyried y dystiolaeth hon, er bod y Pwyllgor yn deall pam nad yw Llywodraeth Cymru yn dymuno monitro ar lefel ysgolion unigol, rydym yn siomedig bod y Llywodraeth yn dal i ystyried nad yw hwn yn faes y mae angen ei fonitro ymhellach, fel yr argymhellwyd yn wreiddiol gan yr Archwilydd Cyffredinol.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru roi trefniadau ar waith i roi sicrwydd bod athrawon cyflenwi, goruchwylwyr llanw a gweithwyr cymorth dysgu yn gweithio o fewn eu disgrifiadau rôl.

### Ffioedd asiantaeth

**69.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi manylion y ffioedd a godir gan asiantaethau drwy'r fframwaith asiantaethau. Roedd y ffioedd uchaf yn 2023/24 yn amrywio rhwng £20 a £70 y dydd.

**70.** Roedd y Pwyllgor am archwilio p'un a yw'r ffioedd a godir gan asiantaethau yn cynrychioli gwerth am arian, dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o gyfiawnhad asiantaethau dros eu ffioedd, ac a yw Llywodraeth Cymru yn gyfforddus ag amrywiaeth mor eang mewn ffioedd.

**71.** Fel y nododd Llywodraeth Cymru yn ei llythyr at y Pwyllgor, nid yw'r ffioedd hyn yn gyfystyr ag elw:

> Dylid cofio hefyd o ran y gwariant hwn, fod rhaid i asiantaethau hefyd dalu am ddarparu gwasanaethau a chostau ychwanegol (nid dim ond darparu'r gweithiwr a thalu amdano). Mae'r costau hyn yn cynnwys staff cymorth a rheolwyr cyfrifon swyddfa gefn, gwasanaethau'r gyflogres, gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau diogelu, achrediad ac archwiliadau blynyddol gan gorff achredu cymeradwy,

[60] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 130

cydymffurfiaeth â pholisi hanfodion seiber a lleihau carbon, ynghyd â darparu hyfforddiant a datblygu ar gyfer eu gweithwyr.[61]

**72.** Dywedodd Sioned Evans, yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor:

> "The agencies are commercial entities …. the schools are free to use whichever agency best suits their purposes. What we have done through guidance and the controls … is to ensure that those fees are as transparent as possible so that, when schools have to make the decision around finding supply cover, they are really clear about what that cover will cost them and the terms and conditions"62

**73.** Darparodd Llywodraeth Cymru ragor o wybodaeth am yr amrywiad mewn ffioedd yn ei llythyr dilynol a dywedodd *"mae'r ffi asiantaeth hon o oddeutu £40 y dydd ond yn cyfrif am 16% o gyfanswm y taliad dyddiol am athro cyflenwi"*.[63]

**74.** Nododd yr Archwilydd Cyffredinol:

> *"Mae'r contract fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau ddatgan uchafswm ffi'r asiantaeth a darparu anfonebau ar gyfer ysgolion sy'n nodi elfennau'r ffioedd yn glir. Nid ydym wedi gwirio a yw'r gofynion hynny'n cael eu hateb."*[64]

**75.** Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru eu bod yn hyderus bod gofynion y contract yn cael eu bodloni.

## Ein barn ni

**76.** Mae amrywiaeth eang yn y ffioedd a godir gan wahanol asiantaethau. Heb fonitro digonol, mae'n amhosibl gwybod beth yw'r cyfiawnhad dros y ffioedd hyn neu a ydynt yn cynrychioli gwerth am arian i bwrs y wlad.

---

[61] Llywodraeth Cymru, Llythyr gan Lywodraeth Cymru Mawrth 2024, paragraff 4
[62] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 141
[63] Llywodraeth Cymru, Llythyr gan Lywodraeth Cymru Mawrth 2024.
[64] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 33

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n ofalus y modd y cymhwysir ffioedd asiantaethau, y cyfiawnhad a'r amrywiadau er mwyn sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian.

# 4. Pwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru

**77.** Roedd y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn cynnwys ymrwymiad i weithio tuag at gyflawni:

> *"model mwy cynaliadwy ar gyfer athrawon cyflenwi, gyda gwaith teg wrth wraidd y model hwnnw. Bydd y model yn cynnwys opsiynau amgen a arweinir gan yr awdurdodau lleol"*[65]

**78.** Arweiniodd hyn at ddatblygu Pwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru ("y llwyfan archebu"). Mae hyn yn caniatáu i athrawon cyflenwi gael eu cyflogi'n uniongyrchol gan ysgolion ac awdurdodau lleol gyda mynediad i'r gronfa bensiwn athrawon a'r cyfle i gael eu talu "ar raddfa", fel bod eu cyflog yn adlewyrchu eu blynyddoedd o waith. Dyfarnwyd y contract i ddatblygu'r llwyfan archebu i *TeacherBooker Ltd*.

**79.** Derbynnir y bydd y trefniadau newydd hyn gyda phensiwn a thâl uwch yn ddrytach i ysgolion o gymharu â defnyddio asiantaethau[66], sef pwynt a gadarnhawyd gan Sioned Evans yn ei thystiolaeth.[67]

**80.** Mae llythyr yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi mai cost graidd y llwyfan archebu ar gyfer Llywodraeth Cymru yw hyd at £231,750 + TAW y flwyddyn, gyda'r gost derfynol yn dibynnu ar y nifer o ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n ei ddefnyddio.[68]

**81.** Mae llythyr yr Archwilydd Cyffredinol yn amlinellu adborth a dderbyniwyd gan gyfarwyddwyr addysg awdurdodau lleol. Er bod rhai'n cyfeirio at fanteision posibl y llwyfan archebu o ran ansawdd addysg a symleiddio, mynegodd eraill ansicrwydd ynghylch y nifer yr ysgolion sy'n ei ddefnyddio, digonolrwydd y pwll o'i mewn, ac amser gweinyddu.[69]

**82.** Dull gweithredu Llywodraeth Cymru yw rhoi'r llwyfan archebu ar waith yn raddol gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn symud ei bwll presennol o staff cyflenwi i'r

---

65 Llywodraeth Cymru, Y Cytundeb Cydweithio: 2021, Tachwedd 2021
66 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 44
67 Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 167
68 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 43
69 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 46

platfform archebu o hydref 2023. Y bwriad oedd – trwy ddefnyddio awdurdod lleol gyda phwll cyflenwi sefydledig – y gellid profi'r llwyfan archebu yn gynnar yn y broses gyflwyno, cyn ei sefydlu o fewn awdurdodau lleol nad oedd eisoes ganddynt bwll cyflenwi canolog.

**83.** Ar yr adeg yr oedd y Pwyllgor yn clywed tystiolaeth, nid oedd y gwerthusiad ffurfiol o'r cynllun peilot wedi'i gwblhau ond dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru:

> *"feedback has been broadly positive … approximately 50 per cent are now using the teacher booking system, and 80 per cent of jobs have been filled, with 94.5 days of work booked via TeacherBooker on Ynys Môn"*[70]

**84.** Fodd bynnag, nododd Estyn yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor:

> *"Senior leaders are often unaware of [the] new booking platform or have not made much use of it because of the lack of availability of supply teachers in some areas."*[71]

**85.** Yn ei llythyr dilynol, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> *"O'r dechrau, roedd modd i ysgolion ddefnyddio'r llwyfan archebu, yn ogystal â chysylltu'n uniongyrchol â'r awdurdod lleol i sicrhau staff cyflenwi. Fodd bynnag, rydym ar ddeall bod Ynys Môn bellach yn bwriadu i bob ysgol newid i archebu drwy'r llwyfan newydd yn gyfan gwbl yn ystod yr wythnosau nesaf. Rydym yn fwy na pharod i gysylltu â chydweithwyr yn Ynys Môn i gael eu hasesiad cychwynnol o'r llwyfan a'u profiadau o'r broses gyflwyno ar ôl y newid hwn."*[72]

**86.** Mater allweddol y mae angen mynd i'r afael ag ef cyn y gellid defnyddio'r system beilot mewn mannau eraill yw sut y byddai'r llwyfan archebu yn cael ei sefydlu mewn awdurdodau lleol heb bwll canolog sefydledig o athrawon cyflenwi. Dywedodd Sioned Evans:

---

[70] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 153
[71] Estyn, Tystiolaeth ysgrifenedig, 28 Mawrth 2024
[72] Llywodraeth Cymru, llythyr gan Lywodraeth Cymru Mawrth 2024.

> *"We are working with the Welsh Local Government Association to see whether we can agree on the platform that would need to be created as an employer, because we would really need a national platform to employ. At the moment, it's worked quite well with Ynys Môn, because they already had an existing payroll for the teachers and it linked really well with the teacher booking system. If you are then rolling this out across the whole of Wales, you … need that payroll platform"*[73]

**87.** Gofynnodd y Pwyllgor hefyd p'un a yw Llywodraeth Cymru wedi sefydlu beth y mae'n ystyried fyddai'n bwll digonol ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny nad oes ganddynt bwll canolog sefydledig o athrawon cyflenwi. Dywedodd Sioned Evans:

> *"We don't know what 'sufficient' is going to be. That's the very simple answer. We don't know what that's going to look like."*[74]

## Ein barn ni

**88.** Yn 2021, argymhellodd Pwyllgor Deisebau'r Senedd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymhellach drefniadau amgen ar gyfer cefnogi ysgolion i ddod o hyd i athrawon cyflenwi a'u cyflogi. Yn dilyn sefydlu'r cynllun peilot yn Ynys Môn, mae'n hollbwysig bod y cynllun peilot hwn yn cael ei werthuso a bod cynnydd cyflym yn cael ei wneud i'w ymestyn yn genedlaethol.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gwblhau a chyhoeddi ei gwerthusiad o'r llwyfan archebu athrawon cyflenwi a nodi ei chynigion i roi hyn ar waith yn genedlaethol. Dylai hyn gynnwys asesiad o'r màs critigol o athrawon sydd eu hangen ar y llwyfan archebu, manylion unrhyw ystyriaeth a chanfyddiadau sy'n codi o'r asesiad cychwynnol o'r llwyfan a phrofiadau o'r cyflwyniad yn dilyn y trawsnewid i'r system hon gan Gyngor Sir Ynys Môn. Yn dilyn hyn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd.

[73] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 153
[74] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 158

# 5. Ansawdd y cyflenwad a dysgu proffesiynol

**89.** Yn ei adroddiad yn 2020, *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Dilyniant*, argymhellodd Archwilio Cymru y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu:

> *"nodi mesurau llwyddiant tymor hwy clir er mwyn barnu'r cynnydd o ran gwella ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi."*[75]

**90.** Ni dderbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn yn llawn, gan ddadlau mai mater i arweinwyr ysgolion unigol yw mesur ansawdd neu allu staff ysgol, er, fel y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi yn ei lythyr:

> *"disgrifiodd ymateb Llywodraeth Cymru sut yr oedd yn bwriadu mynd i'r afael â phrinderau, meithrin capasiti, a hybu ansawdd. Mae wedi cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol, er enghraifft trwy gyhoeddi canllawiau, rheoli a datblygu'r contract fframwaith, a darparu mynediad at ddysgu proffesiynol ar gyfer staff cyflenwi."*[76]

**91.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dal i gredu bod rhinwedd gwneud hynny gan nodi:

> *"Rydym yn deall y gwahanol gyfrifoldebau am ddarparu athrawon cyflenwi a sicrhau ansawdd, ond rydym yn dal i gredu y byddai'n werth i Lywodraeth Cymru ddisgrifio sut y byddai trefniadau cyflenwi a chapasiti o ansawdd da'n edrych ar draws y system addysg. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl craffu ar effeithiolrwydd a gwerthuso effeithiolrwydd ei gweithredoedd o ran cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.*[77]

[75] Archwilydd Cyffredinol Cymru Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Dilyniant Tachwedd 2020 Argymhelliad 1
[76] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 8
[77] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 9

**92.** Yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru eu bod wedi myfyrio ymhellach ar yr argymhelliad hwn ond:

> *"Rŷn ni'n glir o hyd taw mesur safonau yw rhywbeth i'r ysgolion. Dydyn ni ddim mewn lle i allu mesur y safonau a sut mae athrawon yn ymateb yn y dosbarth."*[78]

## Ein barn ni

**93.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod amharodrwydd Llywodraeth Cymru i geisio ymwneud yn uniongyrchol â safonau addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Yn y pen draw, ysgolion sy'n gyfrifol am ansawdd yr addysgu yn yr ystafell ddosbarth a gwneud yn siŵr bod unrhyw drefniadau cyflenwi sydd eu hangen yn ddigonol. Fodd bynnag, fel y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi:

> *"Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi sut y bydd yn gwybod a yw ei chamau gweithredu ategol hi ei hun yn effeithiol".*[79]

**94.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Archwilydd Cyffredinol bod yn rhaid sefydlu mesurau llwyddiant clir, y gellir barnu'r cynnydd o ran gwella ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi yn eu herbyn. Heb hyn, ni all Llywodraeth Cymru fod yn glir a yw ei hymyriadau yn cael unrhyw effaith sylweddol.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mesurau llwyddiant tymor hwy clir er mwyn barnu'r cynnydd o ran gwella ansawdd a digonolrwydd athrawon cyflenwi.

**95.** Crynhodd yr Archwilydd Cyffredinol y sefyllfa o ran ansawdd y cyflenwad a dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon cyflenwi yn ei lythyr:

> *"Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i ddarparu mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon cyflenwi a staff*

[78] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 178

[79] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 8

> *cyflenwi ond nid oes data ar y niferoedd sy'n manteisio arnynt nac effaith hynny".* [80]

**96.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn amlinellu yn ei lythyr waith Cyngor y Gweithlu Addysg wrth ddarparu'r pasbort dysgu proffesiynol a chyllid Llywodraeth Cymru a gafodd Cyngor y Gweithlu Addysg i ddatblygu gwefan Addysgwyr Cymru. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod deunyddiau dysgu proffesiynol ar gael i athrawon cyflenwi ar Hwb.[81] Fodd bynnag mae'n dod i'r casgliad:

> *"nid yw'n hysbys i ba raddau y mae athrawon cyflenwi'n manteisio ar y deunyddiau hyn ac nid yw eu heffeithiolrwydd wedi cael ei werthuso."* [82]

## Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol

**97.** Ym mis Chwefror 2022, cynigiodd Llywodraeth Cymru Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol newydd. Mae'r dull cenedlaethol hwn o ddysgu proffesiynol drwy gydol gyrfa ar gyfer y gweithlu ysgolion, gan gynnwys athrawon cyflenwi a gweithwyr cymorth dysgu, yn cynnwys mynediad at ddysgu proffesiynol a disgwyliad y bydd athrawon ac eraill yn dilyn ac yn ymgysylltu'n weithredol â datblygiad proffesiynol. Mae'r contract fframwaith cenedlaethol newydd o fis Medi 2023 yn cynnwys gofyniad i asiantaethau gynnwys mynediad i'r Hawl yn eu telerau cyflogaeth.[83]

**98.** Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig mewn deall pa fesurau sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith i sicrhau bod asiantaethau masnachol yn darparu'r hawliau dysgu proffesiynol a'r hyfforddiant HMS sy'n ofynnol gan bob aelod o staff addysgu ysgolion.

---

[80] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 10
[81] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 11
[82] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 11
[83] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 14

**99.** Roedd tystiolaeth lafar gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn nodi:

> *"In 2020, there were 723 training courses provided by the framework agencies, and that that, by 2023, had risen to … around 2,149. Nine thousand workers, in terms of agencies, back in 2020 were trained, and that's risen to 18,000 in 2023."*[84]

**100.** Nododd y Pwyllgor fod arolwg NASUWT o athrawon cyflenwi yng Nghymru yn 2021/22 wedi canfod nad oedd 31 y cant o athrawon cyflenwi wedi cael mynediad at gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus yn y 12 mis diwethaf.[85]

**101.** Fodd bynnag, nid oedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gallu darparu unrhyw ffigurau canran cyfatebol ar nifer yr athrawon cyflenwi a oedd wedi cael hyfforddiant bob blwyddyn.[86] Yn dilyn hynny, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y Pwyllgor yn nodi

> *"Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data ar nifer ac enwau'r cyrsiau hyfforddiant a ddarperir gan asiantaethau sy'n rhan o'r fframwaith yn ystod pob chwarter a nifer y gweithwyr sydd wedi cael hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn."*[87]

## Ein barn ni

**102.** Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran sicrhau bod cyfleoedd a deunyddiau dysgu ar gael i staff cyflenwi. Fodd bynnag, mae hefyd yn awgrymu bod hyn ymhell o fod yn gyffredinol. Heb fonitro a meincnodi priodol, ni fydd y Llywodraeth yn gallu olrhain cynnydd. Mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei unioni.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru, ar ôl rhoi mesurau ar waith i ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus a chyfleoedd hyfforddi i athrawon cyflenwi a staff cyflenwi, sefydlu trefniadau monitro ystyrlon ar y nifer sy'n manteisio arnynt, ac adrodd ar lwyddiant y trefniadau hyn.

---

[84] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 195
[85] NASUWT Arolwg Blynyddol Athrawon Cyflenwi (Cymru), 2022, t 16
[86] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 203
[87] Llywodraeth Cymru, Llythyr gan Lywodraeth Cymru Mawrth 2024.

# 6. Tâl ac amodau athrawon cyflenwi

## Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru

**103.** Ym mis Rhagfyr 2021, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB) gynnal adolygiad o gyflog ac amodau athrawon cyflenwi.

**104.** Cadarnhawyd mewn gohebiaeth rhwng Cadeirydd IWPRB a'r Archwilydd Cyffredinol bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu *dim ond* cynnwys athrawon cyflenwi a gyflogir yn uniongyrchol gan ysgolion ac awdurdodau lleol o fewn cylch gorchwyl y IWPRB. Gofynnwyd yn benodol i IWPRB eithrio athrawon cyflenwi a ddarperir gan asiantaethau (y mwyafrif helaeth o athrawon cyflenwi yng Nghymru).[88] Ym mis Mawrth 2022, dywedodd 81% o athrawon cyflenwi fod y rhan fwyaf o'u cyflogaeth trwy asiantaeth (o gymharu â 77% yn 2021 a 58% ym mis Mawrth 2018[89]), sy'n golygu nad oedd yr adolygiad wedi ystyried y mwyafrif helaeth o athrawon cyflenwi. Dywedodd Sioned Evans wrth y Pwyllgor mai'r rheswm dros hyn yw:

> *"oherwydd dyna'r unig rai oedd yn cael eu cyfro yn y schoolteachers' pay and conditions (Wales) document."*[90]

**105.** Mae'r amgylchiadau ynghylch yr oedi wrth gyhoeddi'r adroddiad wedi'u nodi yn adolygiad strategol IWPRB o strwythur cyflogau ac amodau athrawon ac arweinwyr[91] a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2024. Roedd IWPRB wedi cyflwyno ei adroddiad gwreiddiol, yn ôl yr angen, ar 30 Ebrill 2023. Yn dilyn hynny, gofynnodd y Gweinidog i IWPRB ystyried caniatáu sylwadau llafar a chaniatáu amser ychwanegol ar gyfer ailgyflwyno'r adroddiad. Yn dilyn y sylwadau hyn, cyflwynwyd yr adroddiad wedi'i ddiweddaru i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2023. Dywedodd swyddogion wrth y pwyllgor ym mis Chwefror 2024 y byddai'n cael ei gyhoeddi o fewn yr ychydig wythnosau nesaf. Cyhoeddwyd yr

---

[88] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Gwaith dilynol, Hydref 2023, paragraff 40
[89] Cyngor y Gweithlu Addysg, Mewnwelediadau data, Cyflenwi data athrawon ysgol, 2022.
[90] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 210
[91] Llywodraeth Cymru, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi adolygiad strategol Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru o strwythur cyflog ac amodau athrawon ac arweinwyr yng Nghymru , 9 Ebrill 2024

adroddiad ym mis Ebrill 2024.[92] Hyd yma ni chafwyd unrhyw ymateb sylweddol gan Lywodraeth Cymru, er bod blwyddyn galendr lawn wedi mynd heibio ers cyflwyno'r adroddiad wedi'i ddiweddaru.

**106.** Gwnaeth yr adroddiad gan IWPRB 11 o argymhellion, ac mae pob un ohonynt yn cyfeirio'n benodol at athrawon cyflenwi a gyflogir drwy awdurdodau lleol neu'n uniongyrchol gan ysgolion. Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

Argymhelliad 1: Argymhellwn fod Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (DCAAY(C)) yn cyfeirio'n benodol at athrawon cyflenwi a gyflogir trwy awdurdodau lleol neu'n uniongyrchol gan ysgolion.

Argymhelliad 2: Argymhellwn fod rolau a chyfrifoldebau athrawon cyflenwi tymor byr ac athrawon cyflenwi tymor hir a gyflogir trwy awdurdodau lleol neu'n uniongyrchol gan ysgolion yn cael eu diffinio yn DCAAY(C) a bod y disgrifyddion yn Atodiad A yr adroddiad hwn yn cael eu defnyddio.

Argymhelliad 3: Argymhellwn fod yr holl athrawon cyflenwi a gyflogir trwy awdurdodau lleol neu'n uniongyrchol gan ysgolion yn cael eu talu ar y pwynt cyflog maen nhw wedi'i gyrraedd yn unol â DCAAY(C), ni waeth p'un a ydynt yn cyflenwi ar sail tymor byr neu dymor hir.

Argymhelliad 4: Argymhellwn fod DCAAY(C) yn cynnwys datganiad clir bod gan athrawon cyflenwi a gyflogir trwy awdurdodau lleol neu'n uniongyrchol gan ysgolion yr hawl i gael buddion y gofynion cyflog ac amodau.

Argymhelliad 5: Yn rhan o weithredu'r platfform archebu newydd, argymhellwn fod y buddion a gynhwysir yn argymhelliad 4 yn cael eu mynegi i'r holl randdeiliaid wrth esbonio sut mae'r system newydd yn gweithio.

Argymhelliad 6: Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn egluro yn y canllawiau sefydlu a, lle y bo'n berthnasol, yn DCAAY(C):

- trefniadau mentora ar gyfer athrawon cyflenwi ANG tymor hir

- cyngor ymarferol ar sut gall athrawon cyflenwi ANG gael at 13 diwrnod o

[92] Llywodraeth Cymru, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi adolygiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru o rolau a chyfrifoldebau athrawon cyflenwi yng Nghymru sy'n cael eu cyflogi drwy awdurdodau lleol neu'n uniongyrchol gan ysgolion 18 Ebrill 2024

- ddysgu proffesiynol

- arweiniad ar gyfer unrhyw daliad i athrawon cyflenwi ANG yn unol â pharagraff 61 DCAAY(C)

- canllawiau ymarferol ar sut mae'r hawl i lai o amser addysgu yn gweithredu yn amserlen athrawon cyflenwi ANG

**Argymhelliad 7:** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i neilltuo ysgolion cynhaliol i staff cyflenwi ANG at ddibenion DPP.

**Argymhelliad 8:** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn egluro yn yr Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a, lle y bo'n berthnasol, DCAAY(C):

- y trefniadau i gael at DPP ar gyfer yr holl athrawon cyflenwi a gyflogir trwy awdurdodau lleol neu'n uniongyrchol gan ysgolion

- arweiniad ar gyfer unrhyw daliad i athrawon cyflenwi yn unol â pharagraff 61 DCAAY(C)

**Argymhelliad 9:** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu system lle mae'r holl athrawon cyflenwi a gyflogir trwy awdurdodau lleol neu'n uniongyrchol gan ysgolion yn cael gwybod am gyfleoedd dysgu proffesiynol.

**Argymhelliad 10:** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion i hwyluso anghenion arfarnu a datblygiad proffesiynol yr holl athrawon cyflenwi a gyflogir trwy awdurdodau lleol neu'n uniongyrchol gan ysgolion, ni waeth pa mor hir y'u cyflogwyd. Argymhellwn fod hyn yn cael ei wneud trwy system o ysgolion cynhaliol.

**Argymhelliad 11:** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r broses ar gyfer casglu a dadansoddi data ar gyfer athrawon cyflenwi a gyflogir trwy awdurdodau lleol neu'n uniongyrchol gan ysgolion, yng ngoleuni canfyddiadau'r adroddiad hwn, i lywio polisi a chynllunio ariannol y llywodraeth.

### Dyfarniad cyflog athrawon 2022/23

**107.** Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru setliad cyflog newydd i athrawon.[93] Cafodd y newidiadau hyn a wnaed i gyflogau athrawon yn ystod y flwyddyn eu hôl-ddyddio i ddechrau'r flwyddyn academaidd. Fodd bynnag, ni chafodd y codiad cyflog hwn ei ôl-ddyddio ar gyfer athrawon cyflenwi nad oeddent ar y fframwaith asiantaeth. Cadarnhaodd Sioned Evans:

> *"... roedd e mor gymhleth i fynd nôl at edrych ar beth oedd pob ysgol yn gwneud ynglŷn â sut oedden nhw'n cyflogi athrawon. Roedd e'n amhosib, rili, i fynd nôl i edrych ar hwn i edrych am athrawon dros dro oedd yn gweithio mewn lot o ysgolion neu awdurdodau lleol. Roedd e jest yn amhosib i wneud hwnna..."*[94]

**108.** Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i Lywodraeth Cymru sut y mae'n sicrhau bod asiantaethau'n cydymffurfio â'u contract i dalu'r gyfradd isaf o gyflog athrawon. Y dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru yw bod cydymffurfiaeth yn uchel iawn. Dywedodd Owain Lloyd:

> *"Mae'r data sy'n cael ei adrodd yn dangos bod compliance o gwmpas 99 y cant gyda'r fframwaith, ac yn sicr o ran y minimum pay rate gan yr asiantaethau....mae'r analysis yn dangos bod oddeutu 92 y cant o'r gwariant sy'n digwydd yn digwydd gyda'r fframwaith asiantaeth.*[95]

## Ein barn ni

**109.** Mae athrawon cyflenwi yn chwarae rhan bwysig yn y system addysg, p'un a ydynt yn cyflenwi yn y tymor byr neu'r tymor hir. Mae'r Pwyllgor yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i gomisiynu adolygiad o gyflog ac amodau athrawon cyflenwi. Fodd bynnag, mae dros dair blynedd bellach ers i'r adolygiad hwnnw gael ei gomisiynu. Nid oes lle i oedi pellach.

**110.** Nid yw'r Pwyllgor wedi clywed rheswm argyhoeddiadol pam y nododd Llywodraeth Cymru na ddylai'r adolygiad a gynhaliwyd gan IWPRB fod wedi cynnwys pob athro cyflenwi, gan gynnwys y rhai a gyflogir gan asiantaethau. Er na

---

[93] Llywodraeth Cymru Datganiad Ysgrifenedig: Dyfarniad Cyflog Athrawon 2022/23, Ebrill 2023
[94] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 212
[95] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Chwefror, Cofnod y Trafodion, paragraff 215 a 216

fydd pob argymhelliad yn berthnasol i bob athro cyflenwi, rydym yn annog y dylid adolygu'r argymhellion a wneir mewn perthynas â'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan ysgolion ac awdurdodau lleol i weld a ydynt yn gymwys i athrawon cyflenwi asiantaeth.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i adolygiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB) ar gyflog ac amodau athrawon cyflenwi, gan gynnwys trefniadau pensiwn, cyn gynted â phosibl a phennu amserlen ar gyfer gwneud hynny yn y cyfamser.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau bod yr argymhellion perthnasol a gynigir ar gyfer athrawon cyflenwi a gyflogir drwy awdurdodau lleol neu'n uniongyrchol gan ysgolion yn cael eu hadolygu i weld a ydynt yn gymwys i athrawon cyflenwi a gyflogir drwy asiantaethau. Yn dilyn hyn, dylai Llywodraeth Cymru osod amserlen ar gyfer gweithredu ac adrodd yn ôl ar gynnydd.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **21 Chwefror 2024** | **Sioned Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Owain Lloyd**, **Cyfarwyddwr y Gymraeg ac Addysg**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Sefydliad |
| --- |
| **Estyn:** Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Cymru |